

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 4ydd o Dachwedd 2021.

- 1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) Gwilym Evans Prenteg, Richard Parry - Bryncir, John Jones - Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams Amanda N Owen - Golan, Huw Pritchard - Pentrefelin, Dafydd Thomas, Gwenno Emlyn Huws - Penmorfa. Cyngorydd Alwyn Gruffydd, Cyngorydd Stephen Churchman.
- 2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Clifford Williams, Edward Evans, Iddon Edwards, Manon Jones Evans, Delyth Evans.
- 3 **Ddim yn bresennol** - dim.
- 4 **Datgan buddiant** - eitem 10 John Jones.
- 5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** - Cofnodion 7/10/21 Huw Pritchard yn cynnig ei bod yn gywir a Gwilym Evans yn eilio.
- 6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Bryncir - gosod arwyddion yng Nglandwyfach. Asiantaeth Cefnffyrdd wedi cyfeirio'r mater at Lywodraeth Cymru

Prenteg - modur wedi ei symud o'r Maes Parcio ac wedi ei barcio o flaen y tai cyngor. Clerc wedi gyrru manylion yr ail fodur at Gyngor Gwynedd. Nid oedd swyddog o'r Adran Eiddo yn gweld pwrpas o gael cyfarfod safle.

Clerc i gysylltu gyda'r adran sy'n gyfrifol am feysydd parcio i drefnu cyfarfod.

Materion Priffyrdd - heb dderbyn ateb.

Llwybrau Cyhoeddus - mae'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy wedi cerdded llwybr Ty'n Ffridd. Mae dŵr yn pyllu yn y pantiau mewn o leiaf dau le. Mae yn bosib gosod ychydig o gerrig draenio yn y pantiau yma, ond oherwydd bod yr ardal yn un Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, bydd yn anodd gwneud llawer mwy na hyn.

Llwybr Bont Wern - Pont Faen - gobeithir ymweld â'r llwybr yma yn fuan.

Tai Bro Gwgan - mae Grŵp Cynefin wedi cychwyn ar y gwaith ail-rendro. Disgwylir i'r gwaith gymryd oddeutu 10 wythnos.

Problemau Parcio Garndolbenmaen - nid yw Iwan ap Trefor, Cyngor Gwynedd wedi ymateb i'r e-byst.

Ger y Llwyn, Pentrefelin - gosod llinellau melyn. Derbyniwyd ateb gan Adran Parcio Cyngor Gwynedd. Eglurwyd bod angen creu gorchymyn traffig cyn gosod unrhyw gyfyngiad ar y safle. Bydd y broses yn un gyfreithiol sydd yn rhoi cyfle i wasanaethau brys, cynghorwyr lleol ac aelodau o'r cyhoedd wrthwynebu'r gorchymyn.

Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd weithredu ar hyn.

Hwb Eifionydd - derbyniwyd galwad ffôn gan aelod o'r staff yn ymddiheuro nad oedd, oherwydd amgylchiadau arbennig, wedi cael amser i ymateb i'r llythyr a yrrwyd gan y Cyngor Cymuned. Cafwyd braslun o'r camau sydd wedi eu cymryd wrth ymuno'r Meddygfeydd ac addewid y byddai'n gyrru llythyr at y Cyngor Cymuned yn fuan.

Cambrian Terrace, Garndolbenmaen - fframiau i guddio'r biniau. Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael prisiau ar gyfer y fframiau. Penderfynwyd y byddai'r gost o'u cyflenwi yn rhy ddrud. Cynghorydd John Jones am ystyried opsiynau eraill.

Mynwentydd - gofynnwyd i'r contractwr, Dylan Edwards, am bris i atgyweirio'r wal ym Mynwent Penmorfa. Cysylltodd Dylan yn nôl i ddweud ei fod wedi gwneud y gwaith am ddim. Clerc i gysylltu i ddiolch iddo.

Cyfyng, Cwm Pennant - mae Mabon ap Gwynfor AC wedi cydnabod derbyn y llythyr, ond heb ymateb i'w gynnwys.

7 **Mynwentydd**

Mynwent Bethel - toriadau gwair wedi eu cwblhau. Angen tacluso'r ymylon, llwybrau a'r tyfiant o fewn y slabiau. Cynghorydd John Jones am gysylltu gydag Idris Jones.

Carreg fedd gyda thâp o'i amgylch - mae'r ymholiadau i gysylltu gyda'r teulu yn parhau. Trafodwyd y faith fod y bedd dan sylw yn agos at y llwybr a'r angen i sicrhau diogelwch ymwelwyr i'r Fynwent. Penderfynwyd gofyn i'r brodyr Kerrs atgyweirio'r bedd. Gwenno Emlyn Huws yn cynnig a Megan Lloyd Williams yn eilio.

Mynwentydd Ynyscynhaearn a Penmorfa - gwaith torri gwair yn daclus iawn.

Mynwent Prenteg - angen torri'r mieri a gwagio'r bin. Clerc i gysylltu gyda Dylan Edwards.

8 **Llwybrau Cyhoeddus** - dim i'w adrodd.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Amanda N Owen y cyfarfod.

9 **Adroddiad Pentrefi**

Pentrefelin

Ffordd gefn am Penmorfa wrth Ty'n Llech - cerrig mân ar y lôn.

Fferm Plymouth at y Ganolfan - nifer o ddamweiniau wedi digwydd. Cais i ostwng y cyfyngiad cyflymder i 30 mya.

Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd.

Parc Cenedlaethol Eryri Cronfa Prosiectau Cymunedol Bychain - Clerc i edrych ar amodau'r grant a chysylltu gyda Huw Pritchard.

Prenteg

Gwter wrth Aberdeunant angen ei lanhau. Clerc i ofyn am gyfarfod safle gydag aelod o staff yr Adran Briffyrdd.

Bryncir

Llifogydd - Bwyty Madiha a Phont Felin. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

Adroddiad Cyngorydd Stephen Churchman

Wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â -

- Ysbwriel wedi ei adael ym Maes Parcio'r Orsaf, Bryncir;
- Ysbwriel wedi ei adael wrth Clenennau;
- Llifogydd wrth Cefn Peraidd a Nant Cyll.

10 Sedd Wag Garndolbenmaen

Derbyniwyd llythyr gan Michael Jones yn datgan diddordeb mewn llenwi sedd yng Ngarndolbenmaen. Penderfynwyd ei wahodd i ymuno â'r Cyngor. Richard Parry yn cynnig a Megan Lloyd Williams yn eilio.

11 Cynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned - Fforwm Cymunedol Safle Treftadaeth y Byd

Penderfynu ar gynrychiolaeth mis nesaf.

12 Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail-gartrefi a llety hunan arlwyo

Penderfynwyd peidio ateb cwestiynau'r ymgynghoriad, ond gyrru sylwadau ar yr angen -

- i dynhau'r man gwan yn y ddeddf bresennol sy'n galluogi tai haf/ail gartrefi cael ei heithrio o'r dreth ddomestig;
- i gael gwell rheolaeth ar y tai sy'n cael eu gosod drwy wirio'r gwir nifer o wythnosau maent yn cael eu gosod.

13 Gohebiaeth

Llythyrau Cyngor Gwynedd - Ymgynghoriad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 - 2032. Dyddiad Cau 17/12/21.

Gohebiaeth ychwanegol

- a Parc Cenedlaethol Eryri - Prosiect newydd ardaloedd cadwraeth sy'n addas ar gyfer yr unfed gannrif ar hugain (blwyddyn 1) Clerc i gysylltu i'w hysbysu nad oes llawer o weithgareddau yn digwydd yn yr ardal ar hyn o bryd a gofyn i'r Parc ystyried ymestyn y dyddiad cau.
- b Parc Cenedlaethol Eryri - Llythyr atgoffa pecyn plannu coed.
- c Llywodraeth Cymru - Ymgynghoriad ar ddiweddarau trothwy enillion ar gyfer adennill y Dreth Cyngor. Dyddiad cau 31/12/21.

- ch Unllais Cymru - Fersiwn diwygiedig o'r model brotocol ar gyfer datrys cwynion.
 - d Unllais Cymru - Bwletin Newyddion. Rhannwyd 18/10/21.
 - dd Unllais Cymru - Cynlluniau Teithio Llesol.
 - e Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Adroddiad Drafft 2022/23.
 - f Mantell Gwynedd - Bwletin Rhif 18.
 - ff Grŵp Cynefin - Fflatiau ar gael Maes y Môr, Tremadog. Rhannwyd 18/10/21.
 - g Amgueddfa Llechi Cymru - Ddoe, Heddiw a Fory.
 - ng COP Cymru 2021 pecyn cymorth.
- Ychwanegwyd**
- h Parc Cenedlaethol Eryri - Cronfa Prosiectau Cymunedol Bychain.

14 **Cynllunio**

Rhestrau - 8/10, 22/10/21.

Ceisiadau Cynllunio

NP2/16/381B Estyniad un llawr ar yr ochr. Bryn Eithin, Garndolbenmaen. LL51 9UQ Dim gwrthwynebiad. Nodwyd dymuniad y Cyngor Cymuned i'r perchennog ddefnyddio llechi Cymraeg.

C21/1017/36/TC Tystysgrif defnydd cyfreithiol ar gyfer lleoli 10 carafán trwy'r flwyddyn heb gyfyngu i wir garafanau teithiol ar daith. Parc Carafán Mynydd Du, Ffordd Porthmadog, Criccieth. LL52 OPS Dim gwrthwynebiad.

15 **Materion Ariannol**

Ceisiadau am arian: - dim.

Monitro'r Gyllideb: dim gorwariant.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	= £ 253.33
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 63.20
Dylan Edwards	= £ 2690.00

Derbyniadau - Pritchard & Griffiths = £ 220.00

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,845.15 Cyfredol £22,816.94

16 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan

- Cyngorydd newydd Garndolbenmaen.
- Llifogydd.
- Ceisiadau Cynllunio.
- Rhoddion Ariannol.

Gwefan: Cofnodion mis Hydref, manylion cyswllt Cynghorwr newydd.